**TELERAU**

| | |
|---|---|
| **Teitl swydd:** | Cynorthwyydd Cyllid |
| **Rheolwr Llinell:** | Rheolwr Cyllid |
| **Yn gyfrifol am:** | Amherthnasol |
| **Contract:** | Swydd barhaol (6 mis o brawf) |
| **Oriau:** | Rhan-amser, 15 awr i'w cyflawni'n hyblyg yn ôl y gofyn i gyflawni gofynion y swydd. Rhoddir amser o'r gwaith in lieu. |
| **Yn gweithio o:** | Swyddfa Hijinx, Canolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd – gweithio hybrid ar gael |
| **Cyflog/Buddion:** | £25,000 y flwyddyn pro-rata (£10,000 gwirioneddol)<br>Mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith a Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr.<br><br>Yn ychwanegol, rydym yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Hijinx wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n glos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod ei anghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni. |
| **Gwyliau:** | 25 diwrnod y flwyddyn a gwyliau banc statudol, pro rata (13.2 diwrnod y flwyddyn mewn gwirionedd) |

**DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL**

**Gweinyddiaeth Ariannol**

- Cynorthwyo i gadw llyfrau, cofnodi data ac olrhain incwm a gwariant,
- Monitro a phrosesu anfonebau a cheisiadau am daliadau gan gydweithio'n glos gyda'r Rheolwr Ariannol a'r tîm ehangach,
- Cadw cofnodion cyflenwyr a chwsmeriaid,
- Cyflawni cysoni misol yn ôl y gofyn,
- Sicrhau bod yr holl ddogfennau cyfrifon taladwy a'r cyfrifon derbyniadwy yn drefnus, wedi eu strwythuro ac yn "barod at archwiliad",
- Paratoi a chreu anfonebau yn ôl y gofyn,
- Cynorthwyo'r Rheolwr Cyllid wrth fonitro a rheoli llif arian,
- Cynorthwyo i sicrhau bod yr adran gyllid yn rhedeg yn llyfn a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Chyfraith Elusennau a'n polisi Ymddygiad Ariannol,
- Bod yn gyswllt rhwng staff Hijinx sydd angen cymorth ariannol am daliadau ac anfonebu,
- Cynorthwyo wrth fewngofnodi ein cyllidebau cwmni blynyddol yn ein meddalwedd cadw llyfrau (Xero),
- Darparu adroddiadau ar gais y Rheolwr Cyllid gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) Elw a Cholled, Cyllideb a'r Gwirioneddol a Thrafodion y Cyfrifon.

**Rheoli a Chydymffurfio**

- Cefnogi'r Rheolwr Cyllid i gynnal a datblygu dulliau rheoli ariannol cadarn i liniaru risg o dwyll a chamgymeriadau. Mae hyn yn cynnwys datblygu parhaus ar bolisïau, gweithdrefnau a rhoi adroddiadau ariannol,
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau ariannol yn gyson ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau ariannol (gan gynnwys y Comisiwn Elusennau a CThEM),

- Cynorthwyo'r Rheolwr Cyllid i baratoi ar gyfer archwiliad blynyddol Hijinx a chyfrifon statudol.

**Arall**

- Cefnogi'r Rheolwr Cyllid wrth roi adroddiadau ariannol cywir a phrydlon i randdeiliaid allweddol Hijinx a chyllidwyr cyson gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru,
- Cefnogi i gwblhau adroddiadau i gyllidwyr yn ôl y gofyn,
- Dirprwyo ar gyfer y Rheolwr Cyllid yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r is-bwyllgorau yn ôl y gofyn.

**Cyffredinol**

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant yn ôl y gofyn.
- Ar y cyd â staff eraill, bod yn gyfrifol am weithredu, monitro a datblygu polisïau Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb Strategol, Diogelu, Cynaliadwyedd Hijinx a pholisïau eraill perthnasol.
- Teithio yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ôl y gofyn gyda sioeau teithiol Hijinx.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol yn ôl y gofyn.

## MANYLEB PERSON

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Gallu** | | |
| Cymwysterau cyfrifyddu neu brofiad gwaith cyfatebol | X | |
| Profiad yn y sector diwylliant, gwirfoddol neu'r trydydd sector | | X |
| Y gallu i gyfathrebu gwybodaeth ariannol yn glir a chywir | X | |
| Lefelau TG uchel mewn Microsoft Office | X | |
| Y gallu i reoli nifer o flaenoriaethau | X | |
| Y gallu i siarad Cymraeg | | X |
| **Profiad** | | |
| Profiad y gellir ei ddangos o gadw llyfrau a chofnodi data | X | |
| Profiad o anfonebu a phrosesu ceisiadau am daliadau | X | |
| Profiad o baratoi, monitro a dadansoddi rhagolygon llif arian | | X |
| Profiad o weithio fel rhan o dîm | X | |
| Hyderus wrth weithio gyda phobl ag anabledd dysgu a/neu awtistig | | X |
| **Gwybodaeth** | | |
| Gwybodaeth am gyfrifyddu i Elusen a chydymffurfio â rheolau Elusennau | | X |
| Gwybodaeth y gellir ei dangos am feddalwedd cyfrifyddu (e.e. Xero) | | X |
| Gwybodaeth a phrofiad o system ariannu'r celfyddydau yn y Deyrnas Unedig a chynlluniau codi arian eraill | | X |
| **Agwedd** | | |
| Dysgwr llawn cymhelliant sy'n gallu gweithio'n annibynnol | X | |
| Cadarn a gwydn gyda'r gallu i weithio dan bwysau | X | |
| Hanes o fod yn barchus a hael gydag artistiaid eraill ac aelodau'r tîm | X | |
| Yn gallu dangos cysondeb â gwerthoedd a diwylliant creiddiol Hijinx | X | |

